**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf – LG/432/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick

Yn dilyn llythyr y Prif Weinidog dyddiedig 3 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu i unfed cyfarfod ar bymtheg Sector Gwaith Amgylcheddol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig gael ei gynnal ar ddydd Mercher 4 Tachwedd. Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithwir gan Lywodraeth y DU. Roedd yr Aelod-weinyddiaethau wedi cytuno i ohirio'r cyfarfod, a oedd wedi'i drefnu i gael ei gynnal yn Jersey ynghynt eleni.

Yn ystod Cyfarfod Gweinidogol Sector Gwaith Amgylcheddol y Cyngor trafodwyd y camau cydweithredol a oedd yn cael eu cymryd a'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud ar y rhaglen waith bresennol, gan gynnwys yr amgylchedd morol, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cytunodd yr holl aelodau y bydd yr ail Gyfarfod Gweinidogol ar bymtheg yn cael ei gynnal yn 2022, a bydd Sector Gwaith Amgylcheddol y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar yr amgylchedd morol, ymaddasu i newid hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol ar gyfer ei flaenraglen waith.

Yn ystod y cyfarfod cytunodd yr holl Weinidogion ar neges sydd wedi cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs